



# Casgliad y Werin Cymru

## People's Collection Wales

### POLISI BENTHYCA OFFER

Mae Casgliad y Werin Cymru yn gweithio gydag amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd yn ogystal ag ysgolion a grwpiau cymunedol i gynnig ystod o brosiectau digidol arloesol gan ddarparu hyfforddiant, cefnogaeth bell a benthyca cyfarpar. Fel rhan o ymrwymiad y prosiect i gynyddu ystod a maint cynnwys digidol ar draws Cymru, datblygwyd trefn o fenthyca offer yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae staff Casgliad y Werin Cymru o fewn y Llyfrgell yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth yn y defnydd o'r offer ac yn cynorthwyo uwchlwytho cynnwys i'r we.

Niferoedd cyfyngedig o offer sydd ar gael i'w fenthyca'n gyfyngedig ac felly mae'n rhaid gweithredu gweithdrefnau clir o ran benthyca cyfarpar. Bwriad y polisi hwn yw amlinellu'n gweithdrefn fenthyca ac fe fydd er budd y benthyciwr a galluogi gwasanaeth teg ac effeithlon.

#### 1. Benthyca Offer:

- 1.1 Fe fydd offer ar gael i'w fenthyca gan y sector treftadaeth (amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd), grwpiau cymunedol a sefydliadau y tu allan i'r sector treftadaeth sy'n bwriadu creu cynnwys i'w gyfrannu i wefan Casgliad y Werin Cymru.
- 1.2 Fe fydd cytundeb benthyca'n cael ei arwyddo ar ran y ddau barti. Fe fydd y cytundeb benthyca'n gweithredu fel derbynneb tra bydd yr offer ar fenthyg ac fe fydd yn cynnwys manylion adnabod cyfansoddion a meddalwedd yr offer.
- 1.3 Y benthyciwr bydd yn gwbl gyfrifol am yr holl offer a dderbyniwyd ganddynt pan arwyddwyd y cytundeb benthyca.
- 1.4 Deallir y bydd yr holl gyfryw offer yn cael ei ddychwelyd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn yr un cyflwr ag yr oedd pan ddyrannwyd ef.
- 1.5 Dylai'r ddau barti wirio'r cyfansoddion a chynnwys yr offer yn erbyn y cytundeb.
- 1.6 Pe digwydd i'r offer fynd yn ddiffygiol am unrhyw reswm pan mae yng ngofal y benthyciwr, ni ddylid gwneud unrhyw ymgais i'w drwsio. Dylid hysbysu staff Casgliad y Werin yn y Llyfrgell Genedlaethol ar unwaith pe bydd unrhyw ddarn o galedwedd, feddalwedd neu offer arall yn ddiffygiol.
- 1.7 Ni ddylai unrhyw offer yn eich gofal gael ei fenthyca i unrhyw berson arall am unrhyw reswm. Rhaid i bob trosglwyddiad offer gael ei drin gan staff Casgliad y Werin yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- 1.8 Ni ddylid gosod, llwytho na thynnu meddalwedd o'r offer am unrhyw reswm heb ganiatâd ysgrifenedig

- 1.9 Mae'n hanfodol fod offer yn cael ei ddychwelyd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar y dyddiad a'r amser a gytunwyd.
- 1.10 Fe fydd yr holl ddata sy'n parhau ar yr offer wedi iddo gael ei ddychwelyd yn cael ei ddileu ac fe fydd yn anadferadwy. Cyfrifoldeb y benthyciwr yw sicrhau fod yr holl ddata pwysig yn cael ei dynnu cyn dychwelyd yr offer.
- 1.11 Fe fydd eitemau trwm yn cael eu marcio'n glir – dylid gweithredu gweithdrefnau trafod â llaw gan nad yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am anafiadau personol.
- 1.12 Mae'r offer symudol canlynol ar gael:

Offer sganio A4 gyda chliniadur
Offer sganio A3 gyda chliniadur
Uned tryloywder ar gyfer sganiwr A3 (i ddigido sleidiau a ffilm)
Offer straeon digidol gyda chliniaduron MacBook Pro
Offer hanes llafar
Offer recordio fideo Kodak

## 2. Amodau Benthycia Offer:

- 2.1 Gellir arwyddo am offer am uchafswm o chwe wythnos.
- 2.2 Gellir gwneud cais i adnewyddu'r cytundeb benthycia os oes o leiaf mis i fynd yn y cytundeb benthycia. Cedwir yr hawl i wrthod cais i adnewyddu cytundeb benthycia.
- 2.3 Cyfrifoldeb y benthyciwr yw casglu a dychwelyd yr offer.

## 3. Offer Coll neu Ddifrodedig:

- 3.1 Y benthyciwr sy'n gyfrifol am ddychwelyd yr holl offer a dderbyniwyd yn yr un cyflwr ag yr oedd pan dderbyniwyd ef.
- 3.2 Y benthyciwr bydd yn gyfrifol am dalu am gost amnewid offer na ddychwelwyd, neu offer a ddychwelwyd wedi'i ddifrodi gormod i'w drwsio.
- 3.3 Y benthyciwr bydd yn gyfrifol am dalu'r gost trwsio (na fydd yn fwy na'r gost amnewid) unrhyw ddarn o offer sy'n cael ei ddychwelyd mewn cyflwr difrodedig.